**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**BIL CYMRU**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd Bil Cymru (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 7 Mehefin 2016. Mae'r Bil yn awr gerbron Tŷ'r Arglwyddi, a gellir gweld y fersiwn ddiweddaraf o'r Bil [HL Bill 63] yn: Dogfennau Bil — Bil Cymru 2016-17 — Senedd y DU

## Amcanion Polisi a chefndir y Bil

3. Amcanion Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw gweithredu'r elfennau hynny o Bapur Gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi y mae'n ofynnol newid deddfwriaeth ar eu cyfer. Mae'r Bil yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn symud at ddatganoli yn seiliedig ar fodel cadw pwerau, ac mae hefyd yn datganoli pwerau penodol eraill a argymhellwyd gan Gomisiwn Silk.

4. Mae cefndir y Bil a chrynodeb o'i brif ddarpariaethau i'w cael ym memorandwm rhagarweiniol Llywodraeth Cymru ar Fil Cymru, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 5 Gorffennaf 2016.

5. Roedd y memorandwm rhagarweiniol yn amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â darpariaethau'r Bil fel yr oeddynt ar y pryd. Roedd y Bil wedi cyrraedd y cam Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ar y pryd, ac amlinellwyd yn y memorandwm rhagarweiniol amryw o feysydd lle byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio gwelliannau i'r Bil.

6. Ers hynny, rwyf wedi cynnig amryw o welliannau i'r Bil, gan ohebu ag ysgrifennydd Gwladol Cymru. Rwyf wedi cyhoeddi fy ngwelliannau arfaethedig sydd wedi cael eu cyflwyno gan Aelodau Seneddol ac Arglwyddi. Mae hyn wedi galluogi Aelodau Seneddol ac Arglwyddi i gael gwybodaeth fanwl am bryderon Llywodraeth Cymru, ac i graffu ar safbwynt Llywodraeth y DU ar y materion hynny yn y Senedd. Yn yr un modd, mae'r Llywydd hefyd wedi cyhoeddi ei gwelliannau arfaethedig ei hun. Craffwyd yn fanwl ar y Bil gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a chyhoeddwyd ei adroddiad ar 6 Hydref.

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

7. Ers i'r memorandwm rhagarweiniol gael ei osod, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i drafod y darpariaethau â Llywodraeth y DU ac wedi cynnig amryw o welliannau i'r Bil. Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno ar rai o'r gwelliannau a gynigiwyd gennym ac wedi cytuno hefyd y byddant yn ystyried cyflwyno gwelliannau pellach ar gam Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Mae rhestr o'r gwelliannau perthnasol a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn ystod cam Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi i'w gweld yn Atodiad A.

8. Ni allaf gadarnhau ar hyn o bryd a fydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhoi cydsyniad deddfwriaethol i Fil Cymru. Rwyf wedi dweud o'r cychwyn fod rhaid i'r Bil gael ei ystyried ochr yn ochr â fframwaith cyllidol newydd i Gymru - mae trafodaethau ar y fframwaith hwnnw yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Rwy'n dymuno gweld cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer y cam Adrodd, a thelerau'r fframwaith cyllidol, cyn cadarnhau bwriad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chydsyniad deddfwriaethol.

9. Rwy'n gosod y memorandwm hwn o dan Reol Sefydlog 29 ar y cam hwn i ganiatáu i'r Cynulliad a'i bwyllgorau graffu ar y Bil fel y mae ar hyn o bryd. Byddaf yn gosod memorandwm atodol, yn cadarnhau safbwynt Llywodraeth Cymru, pan fydd eglurder ynghylch y fframwaith cyllidol ac unrhyw welliannau pellach i'r Bil yn dilyn y cam Adrodd.

10. Mae'r memorandwm hwn yn mynd i'r afael â'r darpariaethau hynny yn y Bil sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ond mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau ynglŷn â swyddogaethau Gweinidogion Cymru, y Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad, ac ynghylch parhauster y Cynulliad a'r confensiwn cydsyniad deddfwriaethol; ynghyd â chynigion ar gyfer Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau. Mae'r datganiad ysgrifenedig a osodwyd heddiw o dan Orchymyn Sefydlog 30 yn amlinellu'r darpariaethau hynny yn y Bil sy'n addasu'r setliad datganoli trwy wneud newidiadau i swyddogaethau Gweinidogion Cymru, y Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad.

11. Bydd Aelodau'r Cynulliad yn dymuno ystyried y cynigion yn y cylch wrth benderfynu a ddylid rhoi eu cydsyniad deddfwriaethol i'r darpariaethau yn y Bil sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**Crynodeb o'r Bil**

12. Noddir y Bil gan Swyddfa Cymru.

13. Mae'r Bil yn cynnwys 4 Rhan a 6 Atodlen:

Mae Rhan 1 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r trefniadau cyfansoddiadol i Gymru. Mae'r darpariaethau allweddol yn cynnwys:

- Datganiadau ynghylch parhauster Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) ac ynglŷn â'r confensiwn ynghylch y Senedd yn deddfu ar faterion datganoledig [cymalau 1 a 2]

- ail-ddiffinio cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â’r model cadw pwerau (y mae datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn seiliedig arno) [cymal 3 ac Atodlenni 1 a 2]
- ail-dynnu'r ffin ddatganoli mewn perthynas â chyrff cyhoeddus, a fydd yn cael eu diffinio naill ai fel awdurdodau cyhoeddus Cymru (y gall y Cynulliad ddeddfu arnynt heb ganiatâd) neu awdurdodau cyhoeddus a gedwir yn ôl (y gall y Cynulliad, yn gyffredinol, ddeddfu arnynt â chydsyniad Gweinidogion Llywodraeth y DU yn unig) [cymal 4 ac Atodlen 3]
- darpariaethau ynglŷn ag etholiadau, gan gynnwys trosglwyddo'r mwyafrif o bwerau presennol yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaethau ynglŷn ag etholiadau'r Cynulliad i Weinidogion Cymru [cymalau 5 i 8]
- darpariaethau ynglŷn â'r broses y mae'r Cynulliad yn ei dilyn i lunio deddfwriaeth [cymalau 9 i 12]
- dileu'r gofyniad am refferendwm cyn gweithredu'r pwerau codi treth incwm y darperir ar eu cyfer yn Neddf Cymru 2014 [cymal 17]
- darpariaethau ynglŷn â chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, gan gynnwys trosglwyddo pwerau penodol y gyfraith gyffredin o'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru [cymalau 18 i 22]

Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth bellach ynglŷn â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru. Mae hyn yn cynnwys rhoi pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru mewn meysydd megis trwyddedu petrolewm ar y tir; meysydd sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth ar y ffordd megis terfynau cyflymder, rheoliadau arwyddion traffig, trwyddedu tacsis a chofrestru llwybrau bysiau; harbyrau sy'n gyfan gwbl yng Nghymru; cydsyniad ar gyfer cynllunio datblygiadau ynni hyd at 350MW; a rhai pwerau yn gysylltiedig â thrwyddedu morol a chadwraeth a chyfle cyfartal. O ran cymhwysedd deddfwriaethol, mae cymal 46 yn addasu adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan ddarparu ar gyfer amgylchiad arall lle y gall yr Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer ymyrryd mewn perthynas â Biliau'r Cynulliad.

Mae Rhan 3 yn gwneud amrywiol ddarpariaethau, er enghraifft, ynglŷn â darparu gwybodaeth i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a thrwyddedu gweithrediadau cloddio glo.

Mae Rhan 4, ac Atodlenni 5 a 6, yn gwneud darpariaeth ar gyfer mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol, darpariaethau trosiannol ac arbedion, a chychwyn.

Mae gwelliant 119AA Llywodraeth y DU (gweler yr Atodiad) yn ychwanegu Rhan ac Atodlen newydd sy’n gwneud darpariaeth ar gyfer penodi Uwch-lywydd y Tribiwnlysoedd Cymreig, ac yn pennu cyfrifoldebau'r rôl gan gynnwys mewn perthynas â chyfarwyddiadau ymarfer, hyfforddiant a lleoli aelodau tribiwnlysoedd.

### Darpariaethau yn y Bil y mae’n rhaid cael cydsyniad ar eu cyfer

***Cymal 3 ac Atodlenni 1 a 2: Cymhwysedd deddfwriaethol, a'r Atodlenni 7A a 7B newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006***

14. Y rhain yw'r darpariaethau sy'n ail-ddiffinio cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â'r model cadw pwerau.

15. Mae Cymal 3 yn disodli'r adran 108 bresennol o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gydag adran 108A newydd. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r profion ar gyfer penderfynu a ydy darpariaeth Bil Cynulliad y tu allan i gymhwysedd, fel na all y Cynulliad ddeddfu arni.

16. Mae Cymal 3 hefyd yn disodli Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 â dwy Atodlen newydd, fel y'u nodwyd yn Atodlenni 1 a 2 i Fil Cymru: Atodlen 7A newydd, yn nodi'r materion a gedwir yn ôl, ac Atodlen 7B newydd, yn nodi amryw o gyfyngiadau cyffredinol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

17. Disgrifiwyd y deg prawf cymhwysedd deddfwriaethol ym Mil Cymru gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ym mharagraffau 99 i 103 ei adroddiad. Mae'r deg prawf hwn yn gyfuniad o'r holl brofion a nodir yn adran 108A newydd ac Atodlenni 7A a 7B newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac maent yn dangos yr ystod gyfan o gyfyngiadau ar gymhwysedd y Cynulliad i basio deddfwriaeth sylfaenol.

***Cymal 3 (adran 108A newydd o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006)***

18. Yn gyffredinol, mae adran 108A(2) newydd yn darparu bod darpariaeth y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad os ydyw:
    - Yn ymestyn heblaw mewn cysylltiad â Chymru a Lloegr;
    - Yn gymwys heblaw mewn cysylltiad â Chymru neu os yw'n rhoi, gorfodi, addasu neu'n dileu swyddogaethau y gellir eu harfer heblaw mewn cysylltiad â Chymru, oni bai bod yr amodau a ganlyn yn berthnasol (gweler adran 108A newydd):
        - ei bod yn ategol i ddarpariaeth unrhyw Ddeddf Cynulliad neu Fesur Cynulliad neu ddarpariaeth ddatganoledig Deddf Seneddol
        - i'r graddau ei bod yn cael effaith heblaw mewn cysylltiad â Chymru, nad yw'r effaith honno yn fwy nag sydd ei hangen er mwyn rhoi effaith i'r ddarpariaeth;
    - Yn gysylltiedig â'r materion a gedwir yn ôl a nodir yn Atodlen 7A;
    - Yn torri unrhyw gyfyngiadau yn Rhan 1 o Atodlen 7B, gan ystyried unrhyw eithriadau i'r cyfyngiadau hynny yn Rhan 2 o Atodlen 7B;
    - Yn anghydnaws â'r hawliau yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol neu â chyfraith yr UE.

19. Mae adran 108A(6) newydd yn darparu bod y cwestiwn a ydy darpariaeth yn gysylltiedig â mater a gedwir yn ôl (a'i fod felly <u>y tu allan</u> i gymhwysedd) yn cael ei bennu trwy gyfeirio at ddiben y ddarpariaeth, gan roi ystyriaeth (ymhlith pethau eraill) i'w heffaith yn yr holl amgylchiadau (y prawf "diben

ac effaith"). Ar hyn o bryd, darperir ar gyfer prawf "diben ac effaith" yn adran 108(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i benderfynu a ydy darpariaeth yn ymwneud ag unrhyw un o'r pynciau datganoledig a roddir yn Atodlen 7.

***Atodlen 1 (Atodlen 7A newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006)***

20. Mae'r atodlen hon yn hanfodol i'r model cadw pwerau newydd, gan ei bod yn amlinellu'r holl faterion a gedwir yn ôl sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

21. Yn gyffredinol, mae'r materion a gedwir yn ôl fel a ganlyn:

Rhan 1: Materion cyffredinol a gedwir yn ôl, gan gynnwys materion yn gysylltiedig â:

- Y cyfansoddiad a'r gwasanaeth sifil
- Gofynion cofrestru, cyllido a chyfrifyddu pleidiau gwleidyddol
- Un awdurdodaeth gyfreithiol ar gyfer Cymru a Lloegr
- Tribiwnlysoedd, ar wahân i'r rheini sy'n arfer swyddogaethau, mewn perthynas â Chymru yn unig, nad ydynt yn gysylltiedig â materion a gedwir yn ôl
- Materion tramor, yn cynnwys cysylltiadau rhyngwladol a rheoleiddio masnach ryngwladol
- Amddiffyn.

Rhan 2: Materion penodol a gedwir yn ôl, a nodir mewn adrannau o dan y penawdau a ganlyn:

- Pennawd A – Materion Ariannol ac Economaidd
- Pennawd B – Materion Cartref
- Pennawd C – Masnach a Diwydiant
- Pennawd D – Ynni
- Pennawd E – Trafnidiaeth
- Pennawd F – Nawdd Cymdeithasol, Cynnal Plant, Pensiynau a Digolledu
- Pennawd G – Proffesiynau
- Pennawd H – Cyflogaeth
- Pennawd J – Iechyd, Diogelwch a Meddyginiaethau
- Pennawd K – Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
- Pennawd L – Cyfiawnder
- Pennawd M – Tir ac Asedau Amaethyddol
- Pennawd N – Amrywiol.

*Enghraifft o strwythur materion a gedwir yn ôl, eithriadau a hepgoriadau ("carve-outs")*

22. Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi yn cynnwys cyfanswm o 194 o faterion penodol a gedwir yn ôl. Mewn rhai achosion, mae yna eithriadau

i'r materion a gedwir yn ôl a ‘hepgoriadau’ (*‘carve-outs’*) o'r eithriadau. (Mae’r Nodiadau Esboniadol i'r Bil (para 38) yn cyfeirio at “carve-outs”. Materion yw'r rhain sydd wedi cael eu ‘hepgor’ o'r eithriadau, fel eu bod yn cael eu 'hailgadw' i bob pwrpas ar gyfer Senedd y DU ac nad ydynt yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad).

23. Er enghraifft, “Occupational and personal pensions” yw mater a gedwir yn ôl 132, o dan Adran F3. Yr eithriad i fater a gedwir yn ôl 132 yw:

“Occupational and personal pensions schemes for or in respect of –
  (a) Assembly members, the First Minister, Welsh Ministers appointed under section 48, the Counsel General and Deputy Welsh Ministers, and
  (b) Members of local authorities, but pensions regulation in relation to such schemes is not excepted.”

24. Gan hynny, nid yw cynlluniau pensiwn personol a galwedigaethol Aelodau Cynulliad a deiliaid swyddi penodol, ac aelodau awdurdodau lleol, yn faterion a gedwir yn ôl: mae gan y Cynulliad gymhwysedd i ddeddfu arnynt.

25. Fodd bynnag, mae rheoleiddio pensiynau mewn perthynas â chynlluniau o'r fath wedi'i ‘hepgor’ o'r eithriad, a chaiff ei gadw yn ôl ar gyfer Senedd y DU.

Rhan 3: Darpariaethau Cyffredinol: Awdurdodau Cyhoeddus

26. Mae'r rhan hon yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r graddau y mae swyddogaethau cyfansoddiadol, cyfrifyddu a chaffael cyhoeddus awdurdodau cyhoeddus, a swyddogaethau eraill sy'n cael eu harfer mewn perthynas ag awdurdodau cyhoeddus yn benodol, yn fater a gedwir yn ôl.

27. Nid yw'r swyddogaethau hyn yn fater a gedwir yn ôl mewn perthynas ag awdurdodau cyhoeddus Cymru (gweler paragraff 36 isod am eglurhad o awdurdodau cyhoeddus Cymru, fel y darperir ar eu cyfer gan gymal 4 y Bil).

*Awdurdodau penodol*

28. Mae'r swyddogaethau yn faterion penodol a gedwir yn ôl mewn perthynas ag:
- unrhyw gorff a gedwir yn ôl mewn enw yn y materion penodol a gedwir yn ôl a restrir yn Rhan 2 yr Atodlen
- unrhyw gwmnïau yn gysylltiedig â Swyddfa'r Post (fel a nodir ym mater a gedwir yn ôl 84)
- Cynghorau Ymchwil o fewn ystyr Deddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965, a Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau
- Comisiynwyr Heddlu a Throseddu
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

29. Mae'r Rhan hon hefyd yn darparu nad yw'r Atodlen yn cadw yn ôl y gallu i roi, gorfodi, dileu neu addasu swyddogaeth iaith Gymraeg ar unrhyw berson, heblaw am Lys. Mae rhai cyfyngiadau ar y cymhwysedd hwn o'i ystyried ar y cyd â pharagraff 11 o Atodlen 7B (gweler y manylion ym mharagraff 31(2)).

***Atodlen 2 (Atodlen 7B newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006)***

30. Yn ôl adran 108A (2) (d) newydd, mae darpariaeth y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad os yw'n torri unrhyw un o'r cyfyngiadau yn Rhan 1 o Atodlen 7B, o ystyried yr eithriadau i'r cyfyngiadau hynny, sydd wedi eu nodi yn Rhan 2 o Atodlen 7B.

Atodlen 7B newydd, Rhan 1

31. Yn gyffredinol, mae dau gategori o gyfyngiadau wedi eu hamlinellu yn Rhan 1: (1) cyfyngiadau ar addasu'r gyfraith, a (2) cyfyngiadau ar addasu swyddogaethau awdurdodau a gedwir yn ôl neu wneud darpariaeth arall yn eu cylch.

*(1) Cyfyngiadau ar addasu'r gyfraith, fel nad oes gan y Cynulliad gymhwysedd i addasu agweddau penodol ar y gyfraith, er enghraifft:*

- y gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl (h.y. yn gyffredinol, deddfwriaeth y mae ei phwnc yn fater a gedwir yn ôl), ac eithrio pan fo'r addasiad yn ategol i ddarpariaeth nad yw'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl, ac nad yw'r effaith y mae'n ei chael ar faterion a gedwir yn ôl yn fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol i roi effaith i ddiben y ddarpariaeth.

- y gyfraith breifat (e.e. cyfraith contract, camweddau, eiddo) ac eithrio lle nad yw diben yr addasiad yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl.

- agweddau penodedig ar gyfraith trosedd: troseddau a restrir mewn categori (megis dynladdiad a throseddau rhyw) ac agweddau penodedig eraill ar gyfraith trosedd megis cyfrifoldeb a galluedd troseddol, ac ystyr bwriad, byrbwylltra, anonestrwydd ac elfennau meddyliol eraill troseddau.

- deddfiadau penodedig neu rannau penodedig o ddeddfiadau , megis Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a Deddf Hawliau Dynol 1998.

- darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygir gan Fil Cymru wedi iddo ddod yn Ddeddf) heblaw'r darpariaethau a restrir fel eithriadau i'r cyfyngiad cyffredinol.

*(2) Cyfyngiadau ar gymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu ar swyddogaethau neu gyfansoddiad awdurdodau a gedwir yn ôl, neu ar swyddogaethau*

*sydd i'w harfer yn benodol mewn perthynas ag awdurdodau a gedwir yn ôl.*

Yn y cyd-destun hwn, ystyr "awdurdodau a gedwir yn ôl" yw Gweinidogion y Goron, adrannau Llywodraeth y DU ac unrhyw awdurdod cyhoeddus arall nad yw'n un o awdurdodau cyhoeddus Cymru.

Mae'r cyfyngiadau'n golygu na all Ddeddf Cynulliad osod swyddogaethau ar awdurdod a gedwir yn ôl, rhoi swyddogaethau iddo, addasu neu ddileu ei swyddogaethau nac addasu ei gyfansoddiad heb gael cydsyniad y Gweinidog priodol. Y Gweinidog priodol yw'r Ysgrifennydd Gwladol, neu'r Trysorlys os Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yw'r awdurdod dan sylw.

Mae rhai eithriadau i'r cyfyngiadau hyn, ac mae'r rhain wedi eu rhestru ym mharagraffau 9 a 10 (o Atodlen 2). Er enghraifft, nid yw'r cyfyngiad ar osod swyddogaeth ar awdurdod a gedwir yn ôl neu roi swyddogaeth iddo yn berthnasol i'r Comisiwn Etholiadol, yr Asiantaeth Safonau Bwyd na'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr.

Er bod Gweinidogion y Goron yn dod o fewn y cysyniad o "awdurdod a gedwir yn ôl", o ran dileu ac addasu swyddogaethau (paragraff 10 o Atodlen 7B) ymdrinnir â hwy ar wahân ym mharagraff 11.

Yn gyffredinol, mae gan y Cynulliad gymhwysedd i ddileu neu addasu swyddogaethau un o Weinidogion y Goron heb gydsyniad oni bai fod y swyddogaethau sy'n cael eu dileu neu eu haddasu wedi eu cynnwys yn unrhyw un o'r pum categori yn 11(1).

Os nad oes angen cydsyniad oherwydd nad yw'r un o'r pum categori'n gymwys, mae'n rhaid ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol.

Mae'r rhan hon hefyd yn darparu bod y gofyniad i gael cydsyniad yn berthnasol lle cyfeirir at y term cymhwysedd deddfwriaethol mewn unrhyw ddeddfiad. Hynny yw, o ran y diffiniad o'r term, bernir bod y darpariaethau y mae angen cael cydsyniad ar eu cyfer y tu allan i gymhwysedd. Nid yw'r gofyniad i ymgynghori ym mharagraff 11(2) o Atodlen 7B yn golygu bod darpariaeth y tu allan i gymhwysedd yn y cyd-destun hwn.

<u>Atodlen 7B newydd, Rhan 2</u>

32. Mae'r rhan hon yn darparu ar gyfer eithriadau cyffredinol i'r cyfyngiadau yn Rhan 1.

33. Mae'r eithriad cyntaf yn darparu y gall Deddf Cynulliad ailddatgan y gyfraith (gydag unrhyw addasiadau nad yw'r cyfyngiadau cyffredinol yn eu gwahardd). Felly, er enghraifft, gellir defnyddio Deddf Cynulliad i

ailddatgan y gyfraith, hyd yn oed mewn maes a gedwir yn ôl, heb fynd yn groes i Ran 1.

34. Mae'r ail eithriad yn sicrhau nad yw'r cyfyngiadau yn Rhan 1 yn cyfyngu ar y Cynulliad mewn perthynas â'r gweithdrefnau ar gyfer ei is-ddeddfwriaeth ei hun.

***Cymal 4 ac Atodlen 3: Awdurdodau cyhoeddus Cymru***

35. Mae cymal 4 yn darparu ar gyfer adran 157A newydd o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan ddiffinio ystyr awdurdodau cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn bwysig, gan fod y Cynulliad yn cael deddfu ynghylch awdurdodau cyhoeddus Cymru (o'u cyferbynnu ag awdurdodau a gedwir yn ôl) heb fod angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.

36. Mae dwy ffordd o benderfynu a yw awdurdod cyhoeddus yn cael ei gyfrif fel un o awdurdodau cyhoeddus Cymru:

    a) Mae ei swyddogaethau yn rhai y gellir eu harfer mewn perthynas â Chymru yn unig ac yn swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud yn llwyr neu'n bennaf â materion a gedwir yn ôl; neu
    b) Mae wedi ei bennu, neu mae disgrifiad ohono wedi ei bennu, yn Atodlen 9A newydd.

37. Mae Atodlen 9A newydd wedi'i hamlinellu yn Atodlen 3 i'r Bil.

38. Mae'n bwysig nodi nad oes rhaid i awdurdod a ddisgrifir yn Atodlen 9A newydd hefyd ddiwallu'r amodau a amlinellir yn (a) uchod: mae'n un o awdurdodau cyhoeddus Cymru os ydyw naill ai'n diwallu'r amodau yn (a) neu wedi ei bennu yn Atodlen 9A newydd. O ran Atodlen 9A yn y Bil, y dull a ddefnyddiwyd oedd cynnwys holl awdurdodau cyhoeddus Cymru, hyd yn oed os ydynt yn diwallu'r amodau yn is-gymal (2) ac, felly, nad oes rhaid iddynt fod yn yr Atodlen. Mae hyn yn darparu eglurder o ran y cyrff y bernir eu bod yn awdurdodau cyhoeddus Cymru, pa bynnag ddiffiniad y maent yn ei diwallu.

***Cymal 6: Amseriad etholiadau***

39. Mae'r cymal hwn yn atal cynnal etholiad cyffredinol ar gyfer y Cynulliad ar yr un diwrnod ag etholiad cyffredinol ar gyfer y DU neu etholiadau Senedd Ewrop. O ran y darpariaethau yn y cymal hwn ynghylch pennu diwrnod a dyddiad etholiadau, byddai hynny'n cyfeirio at drefniadau etholiadol ac yn dod o fewn cymhwysedd o dan bennawd 12 yn Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Llywodraeth Leol) ac, yn benodol, y trefniadau etholiadol ar gyfer awdurdodau lleol, sy'n bwnc a roddwyd.

***Cymal 9: Y gofyn am uwch-fwyafrif ar gyfer rhai mathau o ddeddfwriaeth***

40. Mae'r cymal hwn yn rhestru pynciau gwarchodedig, megis enw'r Cynulliad a'r system ar gyfer ethol aelodau'r Cynulliad. Pan fo bil yn cynnwys

darpariaethau sy'n ymwneud â phwnc gwarchodedig, mae'n rhaid cael mwyafrif o ddwy ran o dair, o leiaf, o gyfanswm seddi'r Cynulliad er mwyn ei basio.

41. Mae'n rhaid i'r Llywydd ddatgan a yw o'r farn fod Bil yn cynnwys darpariaeth o'r fath ai peidio ar ôl y cam olaf lle gellir gwneud gwelliannau ond cyn i’r Bil gael ei basio neu ei wrthod yn derfynol. Ceir hefyd proses lle gellir cyfeirio'r cwestiwn a yw darpariaeth mewn bil yn ymwneud â phwnc gwarchodedig ai peidio at y Goruchaf Lys.

42. Mae gosod gofyniad ynghylch mwyafrif o ddwy ran o dair yn cyfyngu ar gymhwysedd y Cynulliad.

***Cymal 13: Rheolaeth ariannol, cyfrifon ac archwilio***

43. Mae cymal 13(3) yn mewnosod adran newydd (adran 130A) yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn ôl adran 130A, mae'n ofynnol bod deddfwriaeth Gymreig (Deddf Cynulliad) ymhlith pethau eraill, yn gwneud darpariaeth i gyfrifon priodol gael eu paratoi gan aelodau o Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad ac i Archwilydd Cyffredinol Cymru arfer nifer o swyddogaethau. Mae adrannau 130A(1)(c) a (2) newydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad oherwydd eu bod yn ymwneud â'r pynciau "Archwilydd Cyffredinol Cymru, archwilio, rheoleiddio ac arolygu awdurdodau cyhoeddus archwiliadwy" ym mharagraff 14 yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru.

44. Mae adran 130A (1)(c) newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Ddeddfwriaeth Gymreig ddarparu bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn arfer, neu'n sicrhau bod personau eraill yn arfer, swyddogaethau penodol a restrir yn adran 130A(2). Mae'r rhain yn swyddogaethau sy'n ymwneud â thalu symiau allan o Gronfa Gyfunol Cymru, gan gynnwys cynnal archwiliadau i ba mor economaidd, effeithlon ac effeithiol y mae'r sawl y telir symiau o'r fath iddynt (e.e. Gweinidogion Cymru, Comisiwn y Cynulliad) wedi defnyddio eu hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau.

***Cymal 29: Trosglwyddo swyddogaethau gweithredol yn ymwneud â harbyrau Cymru***

45. Mae'r cymal hwn yn trosglwyddo rhai swyddogaethau sy'n perthyn i Weinidogion y Goron i Weinidogion Cymru, pan fônt yn swyddogaethau y gellir eu harfer mewn perthynas â harbyrau sy'n gyfan gwbl yng Nghymru, heblaw am harbyrau ymddiriedolaeth a gedwir yn ôl.

46. Er nad oes gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â phob harbwr sy'n gyfan gwbl yng Nghymru, mae ganddo gymhwysedd mewn perthynas â rhai harbyrau yng Nghymru, e.e., harbyrau pysgodfeydd, harbyrau hamdden. Er bod harbyrau'n eithriadau penodol i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, pennir bod harbyrau a ddefnyddir neu y mae eu hangen yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion y diwydiant pysgota, hamdden a dibenion penodol eraill o fewn cymhwysedd (gweler

paragraff 10 (Priffyrdd a Thrafnidiaeth) yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Felly, mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad y Cynulliad pan fo'n ymwneud â harbyrau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

***Cymal 46: Ymyrryd os bydd effaith niweidiol ddifrifol ar wasanaethau carthffosiaeth etc***

47. Mae'r cymal hwn yn ymestyn pŵer ymyrryd yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu arfer y pŵer hwnnw pan fydd ganddo sail resymol i gredu bod Bil Cynulliad yn cynnwys darpariaethau a allai gael effaith niweidiol ddifrifol ar wasanaethau carthffosiaeth neu systemau carthffosiaeth yn Lloegr.

48. Mae'r pŵer ymyrryd hwnnw eisoes yn gymwys mewn sefyllfaoedd lle, er enghraifft, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol sail resymol i gredu y gallai darpariaethau bil gael effaith niweidiol ddifrifol ar adnoddau dŵr, cyflenwad dŵr neu ansawdd dŵr yn Lloegr.

49. Mae ymestyn y pŵer ymyrryd yn cyfyngu ar y graddau y gall y Cynulliad arfer ei gymhwysedd deddfwriaethol.

***Cymal 49: Darparu gwybodaeth i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol***

50. Mae'r cymal hwn yn mewnosod adran 66A newydd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n rhoi hawl i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol gael mynediad at wybodaeth a gedwir gan Weinidogion Cymru, neu unrhyw un o awdurdodau cyhoeddus Cymru a bennir mewn rheoliadau a wnaethpwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, y gall ofyn amdani'n rhesymol i gyflawni ei ddyletswydd i archwilio a pharatoi adroddiadau ar gynaliadwyedd cyllid cyhoeddus.

51. Mae hyn yn ymwneud ag archwilio cyllid Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus Cymru. Oherwydd bod archwilio, rheoleiddio ac arolygu awdurdodau cyhoeddus archwiliadwy yn bwnc y caiff y Cynulliad ddeddfu arno (o dan baragraff 14 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), mae gofyn cael cydsyniad y Cynulliad ar gyfer y ddarpariaeth hon.

**Crynodeb o'r darpariaethau y mae'n rhaid cael cydsyniad ar eu cyfer**

52. Mae'n rhaid cael cydsyniad ar gyfer y darpariaethau a amlinellir ym mharagraffau 14-51 ac yn Atodiad A naill ai oherwydd eu bod yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu oherwydd eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

53. Mae'r darpariaethau sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol yn cynnwys y canlynol:

Cymal 3 ac Atodlenni 1 a 2: Cymhwysedd deddfwriaethol ac Atodlenni 7A a 7B newydd;
Cymal 4 ac Atodlen 3: Awdurdodau cyhoeddus Cymru;
Cymal 9: Y gofyn am uwch-fwyafrif ar gyfer rhai mathau o ddeddfwriaeth;
Cymal 46: Ymyrryd os bydd effaith niweidiol ddifrifol ar wasanaethau carthffosiaeth etc.

54. Mae'r darpariaethau sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn cynnwys y canlynol:

Cymal 6: Amseriad etholiadau
Cymal 13: Rheolaeth ariannol, cyfrifon ac archwilio
Cymal 29: Trosglwyddo swyddogaethau gweithredol
Cymal 49: Darparu gwybodaeth i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

**Y cwestiwn a yw'n briodol gwneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil Cymru**

55. Fel y nodwyd ym mharagraffau 8 a 9 uchod, safbwynt Llywodraeth Cymru yw na allwn gadarnhau ar y cam hwn a yw'n briodol i'r darpariaethau hyn gael eu gwneud ym Mil Cymru ai peidio. Mae'n rhaid inni geisio cael cytundeb ynghylch fframwaith cyllidol a chael cyfle i ystyried unrhyw welliannau a gyflwynir gan Lywodraeth y DU ar y cam Adrodd cyn y gallwn gadarnhau ein safbwynt. Bydd y gwelliannau hyn yn destun memorandwm atodol yn dilyn y cam Adrodd.

**Casgliad**

56. Mae'r memorandwm hwn yn amlinellu'r darpariaethau ym Mil Cymru sy'n gofyn am gydsyniad y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 29. Fe'i cyflwynir ar y pwynt hwn, cyn unrhyw welliannau posibl yn ystod cam Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, i ganiatáu amser ar gyfer craffu gan y Cynulliad a'i Bwyllgorau cyn cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

57. Arhosaf am ganlyniad y trafodaethau ar fframwaith cyllidol i Gymru, ynghyd â chadarnhad ynghylch unrhyw welliannau pellach y bydd Llywodraeth y DU yn eu gwneud i'r Bil. Bryd hynny, bydd Llywodraeth Cymru'n gallu penderfynu a ddylem gefnogi rhoi cydsyniad i'r Bil hwn ai peidio.

**Y Gwir Anrh Carwyn Jones AC**
**Y Prif Weinidog**
**Tachwedd 2016**

**ATODIAD A**

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL : BIL CYMRU: GWELLIANNAU LLYWODRAETH Y DU A GYFLWYNWYD AR GYFER CAM PWYLLGOR TŶ'R ARGLWYDDI**

| Rhif y Cymal / Atodlen | Rhif y Gwelliant | Pwnc y Gwelliant |
|---|---|---|
| Atod 3 | 11,12, 15,16,18 &19 | Yn diwygio Atodlen 3, y rhestr o Awdurdodau Cyhoeddus Cymru y gall y Cynulliad ddeddfu yn eu cylch heb gydsyniad Ysgrifennydd Gwladol Cymru. |
| Atod 1, R70-74 | 53A | Yn ychwanegu eithriad i'r materion a gedwir yn ôl yn Adran C6: “Consumer protection, for agricultural and horticultural produce etc.” – er cysondeb ag Adran C7. |
| Atod 1, R75-78 | 53C | Yn egluro'r eithriad i'r materion a gedwir yn ôl yn Adran C7: "Product standards, safety and liability", i eithrio "animals and animal products" yn hytrach na "fish and fish products". |
| Atod 1, R89 | 53D | Yn cyfyngu ar y mater a gedwir yn ôl trwy ddileu'r cyfeiriad at Ddeddf Gwarantau Allforio a Buddsoddi 1991 a'i ddisodli gyda chyfeiriad at yr Adran Gwarantu Credydau Allforio fel mater a gedwir yn ôl. |
| Atod 1, R128-9 | 65A | Mae hyn yn dileu “liabilities for local taxes” o'r dehongliad o'r mater a gedwir yn ôl. |
| Atod 1, R173 | 67B | Yn diwygio'r eithriad i'r mater a gedwir yn ôl i gynnwys llyfrgelloedd. |
| Atod 1, R176 | 67D | Mae'n aralleirio'r mater presennol a gedwir yn ôl i egluro bod mater a gedwir yn ôl 176 yn cyfeirio'n benodol at achosion a gorchmynion ynglŷn â gofalu am blant neu eu goruchwylio (boed hynny o dan Adran 4 neu 5 o Ddeddf Plant 1989 neu fel arall). |
| Atod 1 R194 | 74 | Yn dileu'r mater a gedwir yn ôl ynglŷn â chyflog ac amodau athrawon<br>(gwelliant a gefnogir gan Lywodraeth y DU) |
| Atod 2, Para 5 | 78A | Yn dileu'r cyfyngiad ar addasu adran 146A(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'r adran honno’n caniatáu i Weinidogion Cymru, gyda chydsyniad Archwilydd Cyffredinol Cymru, trwy orchymyn drosglwyddo unrhyw un o'u swyddogaethau goruchwylio mewn perthynas â chorff cyhoeddus neu landlord cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru i'r Archwilydd Cyffredinol, neu i ddarparu bod swyddogaeth o'r fath yn cael ei harfer ar ei rhan gan yr Archwilydd Cyffredinol. |

| Rhif y Cymal / Atodlen | Rhif y Gwelliant | Pwnc y Gwelliant |
|---|---|---|
| Atod 2, Para 5 | 78B | Yn cyfyngu ar y Cynulliad rhag addasu rhai darpariaethau penodol o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn gysylltiedig ag Archwilydd Cyffredinol Cymru ac archwilio cyrff cyhoeddus, heblaw trwy ddarpariaeth arolygu ("oversight provision"), hy darpariaeth sy'n berthnasol neu'n ategol i drosolwg neu oruchwyliaeth yr Archwilydd Cyffredinol. Yn achos addasu adran 8(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, i'r graddau bod yr adran honno yn berthnasol i annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol o'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru, mae yna reolaeth arall: rhaid i'r ddarpariaeth arolygu roi swyddogaethau ar Bwyllgor y Cynulliad nad yw'n cynnwys aelodau o Lywodraeth Cymru, ac nad yw'n cael ei gadeirio gan Aelod Cynulliad sy'n aelod o grŵp gwleidyddol a chanddo rôl weithredol. |
| Atod 2, Para 7 | 78D | Yn dileu'r gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol roi cydsyniad i addasu Rhan 5 (cyllid) neu adran 159 (mynegai diffiniadau) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 lle bo'r addasiad hwnnw yn gysylltiedig â, neu'n ganlyniadol i ddarpariaeth ynglŷn â gweithdrefnau cyllidebol neu drethi datganoledig. |
| Atod 2, Para 9 a 10 | 79, 80 | Mae'r gwelliannau yn caniatáu i'r Cynulliad roi, gorfodi, dileu neu addasu swyddogaethau'r awdurdodau a restrir heb gydsyniad Gweinidogion Llywodraeth y DU. |
| Atod 2, Para 11 | 80A | Mae'r gwelliant yn atal y Cynulliad rhag dileu neu addasu'r swyddogaethau a ganlyn sy'n perthyn i Drysorlys EM:<br>(a) dynodi prif swyddog cyfrifyddu Comisiwn y Cynulliad os digwydd na fydd y Clerc yn gallu ymgymryd â'r rôl honno<br>(b) cyfarwyddo ffurf a chynnwys y cyfrifon a baratowyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 141 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 heb gydsyniad Gweinidogion Llywodraeth y DU. |
| Cymal newydd ar ôl Cym 48 | 107C | Yn diffinio 'tribiwnlys Cymreig' ac yn darparu ar gyfer diwygio'r rhestr o dribiwnlysoedd Cymreig gan Ei Mawrhydi, trwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. |
| Cymal newydd ar ôl Cym 48 | 107DA | Yn creu swydd Llywydd y Tribiwnlysoedd Cymreig. |

| Rhif y Cymal / Atodlen | Rhif y Gwelliant | Pwnc y Gwelliant |
|---|---|---|
| Cymal newydd ar ôl Cym 48 | 107EA | Yn rhoi i Lywydd y Tribiwnlysoedd Cymreig y pŵer i roi cyfarwyddyd ynglŷn ag ymarfer a gweithdrefnau'r tribiwnlysoedd Cymreig. |
| Cymal newydd ar ôl Cym 48 | 107FA | Yn caniatáu i aelodau tribiwnlysoedd weithredu fel aelod o dribiwnlysoedd eraill os yw'n briodol. |
| Cymal newydd ar ôl Cym 48 | 107GA | Yn caniatáu i farnwyr ac aelodau tribiwnlysoedd wasanaethu ar dribiwnlysoedd eraill. |
| Cymal newydd ar ôl Cym 48 | 107H | Yn caniatáu i'r Arglwydd Ganghellor ddiwygio'r darpariaethau i ddefnyddio aelodau tribiwnlysoedd a barnwyr ar draws tribiwnlysoedd os oes angen. |
| Cyn Atod 5 | 119AA | Mae'r Atodlen newydd hon yn amlinellu'r broses benodi, y meini prawf dethol a thelerau swydd Llywydd y Tribiwnlysoedd Cymreig. |
| Atod 5, Rhan 3 | 119HA | Yn diwygio'r Deddf Pensiynau ac Ymddeoliadau Barnwrol 1993 (cym 8), fel bod y gyfundrefn pensiynau ac ymddeoliadau a nodir yn y Ddeddf honno yn gymwys i Lywydd y Tribiwnlysoedd Cymreig. |
| Atod 5, Rhan 3 | 119HB | Yn diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2000 o ganlyniad i greu swydd Llywydd y Tribiwnlysoedd Cymreig a'r ddarpariaeth gysylltiedig. |
| Atod 5, Rhan 3 | 119JA | Yn mewnosod Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 (cym 4) i Ran 3 o Atodlen 5. Mae'n caniatáu i'r Arglwydd Ganghellor atal Llywydd y Tribiwnlysoedd Cymreig o'i swydd dros dro am unrhyw gyfnod y bydd y Llywydd yn destun achos Deiseb ddiswyddo (gweithdrefn y gall y Senedd ei dilyn i wneud cais i'w Mawrhydi ddiswyddo barnwr). |
| Atod 5, Rhan 3 | 119M | Mae'n gymwys i'r ddyletswydd yn adran 47 o Ddeddf y Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 (cym 15) gydweithredu mewn perthynas â hyfforddiant barnwrol, canllawiau a llesiant Llywydd y Tribiwnlysoedd Cymreig. |
| Atod 5, Rhan 3 | 119N | Yn dileu pŵer Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg i roi cyfarwyddiadau ymarfer o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 o ganlyniad i'r pŵer newydd i roi cyfarwyddiadau ymarfer a fewnosodwyd i Fil Cymru trwy Welliant 107EA. |
| Atod 5, Rhan 3 | 119P | Yn dileu pŵer Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru i roi cyfarwyddiadau |

| Rhif y Cymal / Atodlen | Rhif y Gwelliant | Pwnc y Gwelliant |
|---|---|---|
| | | ymarfer o Reoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012 (OS 2012/322 (Cym 53) o ganlyniad i'r pŵer newydd i roi cyfarwyddiadau ymarfer a fewnosodwyd ym Mil Cymru trwy Welliant 107EA. |

Gellir gweld rhifau'r gwelliannau trwy'r dolenni a ganlyn:

- Rhestr wedi'i gosod mewn trefn HL Bill-63I: Rhifau gwelliannau 1-22. Hyperddolen Publication: HL Bill 63-I Marshalled list of amendments for Committee
- Rhestr wedi'i gosod mewn trefn HL Bill-63III: Rhifau gwelliannau 52-122. Hyperddolen Publication: HL Bill 63-III Third marshalled list of amendments for Committee